Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl

**Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol**

## ADRODDIAD TERFYNOL AR GYFLAWNI CAMAU GWEITHREDU O DAN Y CYNLLUN

Tachwedd 2022

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol
**Atal ac Ymateb i Gam-Drin Plant yn Rhywiol**

*Cyhoeddwyd o dan Adran 28 o Ddeddf Plant 2004*

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | 2 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Crynodeb | 4 |
| Trefniadau ar gyfer ATAL Cam-drin Plant yn Rhywiol | 9 |
| Trefniadau ar gyfer AMDDIFFYN plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol | 19 |
| Trefniadau ar gyfer CYNORTHWYO plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol | 23 |
| Polisïau perthnasol sy'n cyfrannu at amcanion y Cynllun | 30 |
| Y camau nesaf | 32 |
| Atodiad – Camau gweithredu a gyflawnwyd o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol rhwng 31 Gorffennaf 2019 a 30 Mehefin 2022 | 33 |



OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG46321, ISBN digidol 978-1-80535-076-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# RHAGAIR Y GWEINIDOG


Ym mis Gorffennaf 2019, cyflwynais Ddatganiad Ysgrifenedig yn sôn am gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i wneud Cymru yn wlad lle gwrandewir ar blant; lle bydd ganddynt fynediad at help o ansawdd da, sy'n canolbwyntio ar blant; a lle gallant wireddu eu hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed.

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith amlwg ar ein gwasanaethau cyhoeddus ac ar waith Byrddau Diogelu rhanbarthol Cymru. Yn 2020, cytunais ar gyfnod cyflawni ychwanegol o chwe mis ar gyfer camau gweithredu'r Cynllun. Er gwaethaf heriau digyffelyb y pandemig, pleser yw gweld bod ein partneriaid wedi parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith pwysig hwn gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r hyn a gyflawnwyd o dan y Cynllun rhwng Gorffennaf 2019 a Mehefin 2022. Mae llawer iawn o bethau wedi'u cyflawni, ac rwy'n ddiolchgar i'r Byrddau Diogelu rhanbarthol am eu gwaith ac i'r sefydliadau arbenigol a gynorthwyodd i ddatblygu adnoddau a hyfforddiant o dan y Cynllun. Hefyd, hoffwn ddiolch i'r goroeswyr – yn blant, yn bobl ifanc ac yn oedolion – sydd wedi gweithio gyda sefydliadau i lywio'r gwaith hwn.

Mae Comisiynydd Plant Cymru a'r Grŵp Trawsbleidiol ar atal cam-drin plant yn rhywiol wedi craffu mewn modd adeiladol ar yr hyn a gyflawnwyd drwy gydol y cyfnod hwn, ac rwy'n ddiolchgar am hynny.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol newydd, gan fynd ati hefyd, pan fo'n briodol, i ddefnyddio canfyddiadau Adroddiad IICSA (sef yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol) a gyhoeddwyd yn ddiweddar, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i amddiffyn plant a phobl ifanc yng Nghymru rhag camdriniaeth rywiol a mathau eraill o gamdriniaeth.



**Julie Morgan, AS, Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Cyflwyniad

Defnyddir y geiriau ‘plentyn’ a ‘plant’ drwy gydol y Cynllun hwn i olygu unrhyw unigolyn hyd at 18 oed.

Fe wnaeth y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol – Atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol (‘y Cynllun’) ystyried cam-drin plant yn rhywiol, yn cynnwys camfanteisio’n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol.

Roedd y Cynllun yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru fel y gellid atal cam-drin plant yn rhywiol, amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol a chynorthwyo plant a gaiff eu cam-drin yn rhywiol. Roedd y Cynllun hefyd yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer Byrddau Diogelu a chanddynt rôl arweiniol yn y dasg o roi’r Cynllun ar waith.

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â chyflawni camau gweithredu’r Cynllun ac mae’n nodi meysydd lle mae angen rhagor o waith.

Cyhoeddodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) ei adroddiad terfynol ym mis Hydref 2022. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymhél â gwaith pwysig yr ymchwiliad ers ei sefydlu yn 2015.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i argymhellion IICSA ar gyfer Cymru. Byddwn hefyd yn ystyried y materion y nodir yn y ddogfen hon bod angen gweithredu ymhellach arnynt. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn myfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd a llywio gwaith yn y dyfodol ar y pwnc pwysig hwn.

Drwy gydol yr adroddiad, tynnir sylw at rai enghreifftiau o’r modd mae Byrddau Diogelu Plant wedi cyflawni camau gweithredu’r Cynllun. Y bwriad wrth wraidd hyn yw dangos rhywfaint o’r gwaith da sydd wedi cael ei wneud – nid ydym yn awgrymu mai mewn rhai rhanbarthau’n unig y cymerwyd camau o’r fath.

## Crynodeb

Mae’r tabl isod yn nodi’r hyn a gyflawnwyd wrth roi’r Cynllun ar waith, ynghyd â’r materion y dylid eu hystyried ar gyfer cam nesaf y gwaith cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

| **Trefniadau ar gyfer ATAL Cam-drin Plant yn Rhywiol** | |
|---|---|
| **Amcan 1: Herio agweddau cyhoeddus tuag at gam-drin plant yn rhywiol a chefnogi diwylliant lle nad yw siarad am gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei ystyried yn bwnc na siaradir amdano mewn modd y gall cyflawnwyr gamfanteisio arno.** | |
| **Yr hyn a gyflawnwyd** | **Pa bethau y dylem feddwl amdanynt ar gyfer cam nesaf y gwaith** |

| | |
|---|---|
| Ymgyrch lwyddiannus a hyrwyddwyd yn eang gan Fyrddau Diogelu Plant drwy gydol cyfnod cyflawni'r Cynllun. | Mae cam-drin plant yn rhywiol yn bwnc anodd i bobl, am resymau amlwg. Bydd yn bwysig inni ystyried gwaith pellach i ategu ymwybyddiaeth y cyhoedd a chwalu'r mudandod ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol. |
| **Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith plant o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir.** | |
| **Yr hyn a gyflawnwyd** | **Pa bethau y dylem feddwl amdanynt ar gyfer cam nesaf y gwaith** |
| Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i sefydlu bellach o dan y Cwricwlwm newydd fel arlwy addysg gorfodol. O dan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, bydd y dysgwyr yn dysgu am ryw mewn ystyr ehangach na'r elfen fiolegol yn unig, gan gael cysyniad ehangach o rywioldeb a'r hyn mae perthynas iach (ac afiach) yn ei olygu.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun gweithredu a fydd yn pennu camau gweithredu ar gyfer y presennol a'r dyfodol ar gyfer ymdrin ag aflonyddu rhywiol ymhlith cyfoedion mewn lleoliadau addysg yn erbyn themâu allweddol.<br><br>Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n llunio canllawiau newydd i gynorthwyo lleoliadau addysg i ddatblygu diwylliant ac amgylchedd sy'n cynnwys pobl LHDTC+ ac sy'n cefnogi hawliau a chydraddoldeb o ran rhywedd. Bydd y canllawiau hyn yn nodi sut y gall ymarferwyr gynorthwyo plant yng Nghymru i dyfu i fyny heb ddod ar draws syniadau niweidiol a chyfyngol yn ymwneud â rolau rhywedd. Hefyd, bydd y canllawiau'n nodi pa mor bwysig yw gwrando ar blant a phobl ifanc, a'u grymuso i herio ymddygiadau annerbyniol, megis aflonyddu rhywiol neu fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn. Rydym wedi datblygu gwybodaeth yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc yn ymwneud â 'Meithrin perthynas | Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried y ffyrdd gorau o ategu dull cenedlaethol o ymdrin â llwybrau atgyfeirio i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywioledig amhriodol, yn cynnwys ystyried arferion da sy'n bodoli eisoes. |

| | |
|---|---|
| amhriodol ar-lein', a hynny er mwyn eu helpu i adnabod cyswllt amhriodol ar-lein a gwella'u dealltwriaeth o'r hyn y dylent ei wneud a pha gymorth sydd ar gael pe bai hyn yn digwydd. | |
| **Amcan 3: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd o sut i helpu i gadw plant yn ddiogel rhag cael eu cam-drin yn rhywiol.** | |
| **Yr hyn a gyflawnwyd** | **Pa bethau y dylem feddwl amdanynt ar gyfer cam nesaf y gwaith** |
| Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu nifer o sefydliadau i ddatblygu adnoddau a chynigion dysgu er mwyn codi ymwybyddiaeth rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd o sut y gallant helpu i gadw plant yn ddiogel rhag cael eu cam-drin yn rhywiol, oherwydd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol.<br><br>Mae yna amrywiaeth eang o adnoddau a chynigion dysgu mynediad agored ar waith.<br><br>Mae'r holl Fyrddau Diogelu Plant wedi cyflawni'n dda iawn ar sail y camau gweithredu hyn, gan greu cyfleoedd i hyrwyddo adnoddau ac ymgysylltu â sefydliadau arbenigol er mwyn cyflwyno hyfforddiant.<br><br>Rydym wedi gweithio gyda Thîm Addysg yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol – Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (NCA-CEOP) er mwyn llunio adnoddau addysg allweddol sy'n anelu at rymuso ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth rywiol a chamfanteisio rhywiol. Mae'r adnoddau hyn ar gael yn ddwyieithog ar Hwb yn yr adran 'Cadw'n ddiogel ar-lein'.<br><br>Yn 2021, fe wnaethom weithio mewn partneriaeth â'r Internet Watch Foundation (IWF) i lansio ymgyrch yn ymwneud ag atal yr arfer o feithrin perthynas amhriodol ar-lein. Gwnaed | Mae newidiadau yn y gweithlu dros amser yn golygu y ceir ymarferwyr newydd a fydd angen cymorth i ddeall ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.<br><br>Hefyd, rhaid parhau â gwaith sy'n anelu at wneud rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael.<br><br>Mae gan Fyrddau Diogelu Plant rôl ganolog yn hyn o beth ac mae gan ymarferwyr rôl o ran hyrwyddo'r adnoddau hyn ymhlith y teuluoedd y gweithiant gyda nhw.<br><br>Rhaid i Lywodraeth Cymru feddwl am y ffordd orau o gynnal dysgu gweithluoedd ar draws asiantaethau. |

| | |
|---|---|
| hyn yn ddwyieithog trwy gyfrwng Hwb. Nod yr ymgyrch yw grymuso plant a phobl ifanc i adnabod arwyddion camfanteisio ac arwyddion meithrin perthynas amhriodol ar-lein, ac i rybuddio'u rhieni a'u gofalwyr ynglŷn â'r bygythiad hwn ar blatfformau ac apiau poblogaidd – rhywbeth a all ddigwydd yng ngŵydd pawb yn aml. | |
| **Amcan 4: Mwy o ymwybyddiaeth o sut y gall diogelu corfforaethol gyfrannu at atal cam-drin plant yn rhywiol.** | |
| **Yr hyn a gyflawnwyd** | **Pa bethau y dylem feddwl amdanynt ar gyfer cam nesaf y gwaith** |
| Mae canllawiau ar ddiogelu corfforaethol ar gael bellach gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).<br><br>Ychydig o amser yn unig a gafodd Byrddau Diogelu Plant i dynnu sylw eu partneriaid at hyn er mwyn iddynt allu adolygu eu polisïau. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau.<br><br>Mae pob rhanbarth wedi ystyried mewn rhyw ffordd y pethau a ddysgwyd yn sgil Diogelu Cyd-destunol mewn perthynas â lleoedd a mannau mwy diogel. | Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried y ffyrdd gorau o ategu dulliau diogelu corfforaethol cyson ledled Cymru. |
| **Trefniadau ar gyfer AMDDIFFYN plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol** | |
| **Amcan 5: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith plant o ffyrdd diogel o ddatgelu cam-drin rhywiol neu berygl o gam-drin rhywiol ac o'r hyn fydd yn digwydd pan fyddant yn dweud wrth rywun.** | |
| **Yr hyn a gyflawnwyd** | **Pa bethau y dylem feddwl amdanynt ar gyfer cam nesaf y gwaith** |
| Datblygwyd a chyflwynwyd adnoddau ar gyfer plant a gweithiodd yr holl Fyrddau Diogelu i hyrwyddo gwybodaeth i blant ynglŷn â chodi llais ynghylch camdriniaeth a chael help trwy eu rhwydweithiau, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ysgolion a cholegau. | Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried beth arall y gellir ei wneud er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth i blant ar gael a'i bod yn cael ei rhannu yn y lleoedd a'r mannau a ddefnyddir ganddynt, yn cynnwys ar-lein/ar y cyfryngau cymdeithasol. |

<table>
<tr><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Amcan 6: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin o’r hyn a ddylai ddigwydd os yw plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, o sut i gynorthwyo plant, ac o sut i gael cymorth iddyn nhw eu hunain.</td></tr>
<tr><td>Yr hyn a gyflawnwyd</td><td>Pa bethau y dylem feddwl amdanynt ar gyfer cam nesaf y gwaith</td></tr>
<tr><td>Mae adnodd ar gael i rieni nad ydynt yn cam-drin ac mae Byrddau Diogelu Plant wedi hyrwyddo’r wybodaeth hon.</td><td>Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o rannu gwybodaeth yn gyffredin gyda rhieni nad ydynt yn cam-drin.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Amcan 7: Bod gan ymarferwyr fynediad at adnoddau a hyfforddiant i’w paratoi ar gyfer ymateb yn effeithiol, yn amserol ac yn briodol i blant sy’n wynebu risg neu sydd wedi eu cam-drin trwy gam-drin plant yn rhywiol.</td></tr>
<tr><td>Yr hyn a gyflawnwyd</td><td>Pa bethau y dylem feddwl amdanynt ar gyfer cam nesaf y gwaith</td></tr>
<tr><td>Mae’r Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol a Stop it Now Cymru/Sefydliad Lucy Faithfull wedi chwarae rôl allweddol o ran cynorthwyo Byrddau Diogelu Plant trwy weithdai a hyfforddiant i ategu dysgu a hyrwyddo adnoddau i ymarferwyr.<br><br>Mae Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol yn cynnwys dolenni at yr adnoddau ymarfer a ddatblygwyd o dan y Cynllun. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn ystyried drafft terfynol Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol a’r bwriad yw cyhoeddi’r ddogfen gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru.</td><td>Dyma faes ymarfer lle mae gwasanaethau ac ymarferwyr yn dal i fagu hyder ynddo. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â’r Byrddau Diogelu Plant i ystyried sut y gellir cynnal y pethau a ddysgir yn y maes ymarfer hwn.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Trefniadau ar gyfer CYNORTHWYO plant sy’n cael eu cam-drin yn rhywiol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Amcan 8: Casglu tystiolaeth o ba mor aml y mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn digwydd er mwyn llywio’r gwaith o gynllunio gwasanaethau i blant sydd wedi’u cam-drin yn rhywiol.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Yr hyn a gyflawnwyd** | **Pa bethau y dylem feddwl amdanynt ar gyfer cam nesaf y gwaith** |
| Eisoes, mae pum Bwrdd Diogelu Plant o blith y chwech yn bwrw ymlaen â gwaith yn ymwneud â systemau a dulliau o gasglu tystiolaeth ynghylch pa mor gyffredin yw achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn eu rhanbarth. Cyflwynwyd enghraifft o arfer da mewn perthynas â Phowys, a gellir defnyddio'r enghraifft honno i lywio meysydd eraill.<br><br>Ar ôl i Fwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru gytuno ar *Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer diogelu plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol*, bydd y canllawiau hyn yn cynnwys dolen at Dempled Arwyddion a Dangosyddion y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol. Bydd y dull ymarfer hwn yn ddefnyddiol o ran helpu i adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Hefyd, mae Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi sefydlu gweithgor er mwyn datblygu dull ymarfer a all gynorthwyo i adnabod achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn helpu awdurdodau lleol i fesur a gwella perfformiad eu gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys monitro data'n ymwneud â phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio Mesurau perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer awdurdodau lleol \| LLYW.CYMRU | Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o fonitro effaith y dulliau ymarfer hyn o ran helpu i adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a gwella tystiolaeth ynghylch natur a chyffredinrwydd y cam-drin hwnnw. |

**Amcan 9: Bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a/neu sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin rhywiol ar-lein yn cael mynediad at wasanaethau a lywir gan drawma a chymorth therapiwtig priodol sy'n seiliedig ar eu hanghenion gofal a**

| **chymorth unigol er mwyn gwella eu llesiant ac atal cam-drin rhag digwydd eto.** | |
|---|---|
| **Yr hyn a gyflawnwyd** | **Pa bethau y dylem feddwl amdanynt ar gyfer cam nesaf y gwaith** |
| Mae Rhaglen Gwasanaethau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Cymru, Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru a Straen Trawmatig Cymru yn ystyried gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma a chymorth therapiwtig priodol i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol. Mae'r gwaith hwn yn parhau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Straen Trawmatig Cymru a'r Hyb Cymorth ACE i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer 'Fframwaith: Cymru sy'n Ystyriol o Drawma'. | Gall gwaith mapio a wneir gan Straen Trawmatig Cymru lywio gwaith partneriaid Byrddau Diogelu Plant. |
| **Amcan 10: Bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael gwybodaeth am wasanaethau cymorth i oedolion ac yn cael eu hatgyfeirio'n briodol i'r gwasanaethau hyn wrth iddynt gyrraedd 18 mlwydd oed.** | |
| **Yr hyn a gyflawnwyd** | **Pa bethau y dylem feddwl amdanynt ar gyfer cam nesaf y gwaith** |
| Datblygwyd a hyrwyddwyd taflen sy'n cynnwys gwybodaeth am gymorth i oedolion. Mae Tîm Rhaglen Gwasanaethau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Cymru, Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru wedi cyflwyno ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn rhoi gwybod i bobl am wasanaethau. | Rhaid parhau i hyrwyddo'n eang wybodaeth i oedolion sydd wedi goroesi cael eu cam-drin yn rhywiol, yn cynnwys gwybodaeth i blant sydd ar fin cyrraedd 18 oed. |

## Trefniadau ar gyfer ATAL Cam-drin Plant yn Rhywiol

Y ffordd orau o ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yw trwy ei rwystro rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae angen inni hyrwyddo gwell dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol ymhlith plant, eu teuluoedd, ymarferwyr, sefydliadau a'r cyhoedd er mwyn iddynt allu adnabod y risgiau ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

### Amcan 1: Herio agweddau cyhoeddus tuag at gam-drin plant yn rhywiol a chefnogi diwylliant lle nad yw siarad am gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei ystyried yn bwnc na siaradir amdano mewn modd y gall cyflawnwyr gamfanteisio arno.

### Camau Gweithredu 1 a 2

Aeth **Llywodraeth Cymru** ati i gomisiynu Stop it Now Cymru/Sefydliad Lucy Faithfull i ddatblygu ymgyrch, a lansiwyd ym mis Mawrth 2020. Nod yr adnoddau mynediad agored hyn oedd helpu i chwalu'r mudandod ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol.

Fe wnaeth yr holl **Fyrddau Diogelu Plant** hyrwyddo deunyddiau'r ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy rwydweithiau eu partneriaid.




### Edrych tua'r dyfodol

Cafodd deunyddiau'r ymgyrch eu lledaenu'n eang ar wahanol adegau drwy gydol cyfnod cyflawni'r Cynllun. Fodd bynnag, mae cam-drin plant yn rhywiol yn bwnc anodd i bobl, am resymau amlwg. Bydd yn bwysig inni ystyried ymgyrchoedd yn y dyfodol sy'n anelu at ategu ymwybyddiaeth y cyhoedd a chwalu'r mudandod ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol.

### Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith plant o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir.

Trwy ddeall sut caiff cydberthnasau eu ffurfio, eu datblygu a'u cynnal, gallwn feithrin sgiliau ac agweddau ar gyfer creu ein cydberthnasau iach ein hunain. Mae hyn yn cynorthwyo plant i feithrin yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i lywio'n effeithiol trwy'r dylanwadau newidiol hyn a sefydlu cydberthnasau gwerth chweil a llawn parch drwy gydol eu bywydau. Gall y cydberthnasau hyn gynnwys cydberthnasau teuluol, cyfeillgarwch, cydberthnasau proffesiynol a chydberthnasau rhywiol. Ymhellach, gall hyn helpu plant i sylweddoli pan fydd pethau afiach neu amhriodol yn digwydd yn eu cydberthnasau gydag eraill.

Mae ymyrryd yn gynnar a rhoi cymorth i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol yn bwysig er mwyn rhwystro'r ymddygiad rhag troi'n ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae hyn yn golygu cynorthwyo plant cyn gynted ag y gallwn ac ymgymryd â gwaith i ddeall beth sydd wrth wraidd yr ymddygiad a pha un a oes gan y plant anghenion gofal a chymorth.

### Cam Gweithredu 3

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd **Llywodraeth Cymru** God Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r Cod yn cynnwys gofynion gorfodol, a nodir sail gyfreithiol y gofynion hyn yn y Crynodeb o'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ganllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n pennu themâu a materion mae'n rhaid eu cynnwys mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Rhaid i'r cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu gwmpasu elfen fandadol yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a bennir yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

### Camau Gweithredu 4 a 5

Comisiynwyd Cymorth i Ferched Cymru gan **Lywodraeth Cymru** i ddatblygu adnoddau ar gyfer lleoliadau addysg er mwyn helpu plant i feddwl am gydberthnasau iach a materion fel cydsynio.




Mae'r holl **Fyrddau Diogelu Plant** wedi hyrwyddo'r adnoddau, gan weithio gydag arweinwyr Addysg, trwy weithdai, trwy ymgyrchoedd a thrwy rwydweithiau cyfathrebu partneriaid.

### Cam Gweithredu 6

Gofynnwyd i **Fyrddau Diogelu Plant** lunio adroddiadau er mwyn rhoi gwybod bod llwybrau atgyfeirio lleol a/neu ranbarthol ar waith ar gyfer plant sy'n arddangos ymddygiad rhywioledig amhriodol, fel yr argymhellir yng nghanllawiau NICE.

Er i'r holl Fyrddau nodi eu bod wedi cymryd camau yn y maes hwn, dywedodd pump o blith y chwech fod y cam gweithredu hwn wedi bod yn anodd ei gyflawni. Mae Castell-nedd Port Talbot wedi datblygu Llwybr a dywedodd Bwrdd Diogelu Gorllewin

Morgannwg fod angen ymdrin â chostau fel y gellir cyflwyno hyn ledled y rhanbarth (i Abertawe). Soniodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru am enghraifft o arfer da yng Ngwynedd.

Awgrymodd Bwrdd Diogelu CYSUR y byddai'n fuddiol cael dull cenedlaethol o ymdrin â'r gwaith hwn, gan ddefnyddio enghreifftiau presennol o arferion da.

**Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru**

Yng nghynhadledd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol yn 2021, rhannwyd enghraifft o arfer da gan Gyngor Gwynedd – *Sefydlu Tîm Emrallt yng Ngwynedd, a gwaith y tîm hwnnw.*

Datblygwyd tîm amlasiantaethol a oedd yn cynnwys ymarferwyr o wahanol feysydd, sef Cyfiawnder Ieuenctid / Gwaith Cymdeithasol / Addysg ac Iechyd. Canolbwynt gwaith Tîm Emrallt oedd sicrhau y gellid ymateb yn fwy effeithiol i achosion pan oedd plant yn arddangos ymddygiad rhywioledig amhriodol. Canolbwyntiodd y tîm ar ddatblygu dull ymyrraeth gynnar / atal effeithiol trwy'r Awdurdod Lleol. Dyma amcanion eraill:

- Anelu at leihau nifer yr achosion a'r atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol yn dilyn ymddygiad rhywiol niweidiol.
- Meithrin ymwybyddiaeth o ymddygiad rhywioledig amhriodol ledled yr awdurdod, a'r modd y caiff yr ymddygiad hwnnw ei gyflwyno.

Mae dull gweithio amlasiantaethol yn galluogi gwahanol wasanaethau i uno ac atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Maent o fudd i blant, i bobl ifanc ac i'w teuluoedd, oherwydd gellir cynnig pecyn cymorth teilwredig yn y ffordd fwyaf effeithlon.

## Edrych tua'r dyfodol

Erbyn hyn, mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o dan y Cwricwlwm newydd wedi'i sefydlu fel arlwy addysg gorfodol. O dan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, bydd y dysgwyr yn dysgu am ryw mewn ystyr ehangach na'r elfen fiolegol yn unig, gan gael cysyniad ehangach o rywioldeb a'r hyn mae perthynas iach (ac afiach) yn ei olygu.


Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun gweithredu a fydd yn pennu camau gweithredu ar gyfer y presennol a'r dyfodol ar gyfer ymdrin ag aflonyddu rhywiol ymhlith cyfoedion mewn lleoliadau addysg yn erbyn themâu allweddol.

Wrth gynllunio cam nesaf y gwaith, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffyrdd gorau o ategu dull cenedlaethol o ymdrin â llwybrau atgyfeirio i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywioledig amhriodol, yn cynnwys ystyried arferion da sy'n bodoli eisoes.

## Amcan 3: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd o sut i helpu i gadw plant yn ddiogel rhag cael eu cam-drin yn rhywiol.

Mae cam-drin plant yn rhywiol yw gamdriniaeth gudd na chaiff ei chofnodi'n ddigonol. Rhywbeth sy'n hanfodol o ran atal cam-drin plant yn rhywiol yw galluogi'r oedolion sydd ym mywydau'r plant i ddeall beth yn union yw cam-drin plant yn rhywiol, sut i adnabod arwyddion y cam-drin a sut i gadw'r plant yn ddiogel.

### Camau Gweithredu 7 ac 8




Yn 2018, aeth **Llywodraeth Cymru** ati i gomisiynu Stop it Now Cymru/Sefydliad Lucy Faithfull i lunio adnoddau i rieni/gofalwyr. Fel rhan o ymgyrch i atal cam-drin plant yn rhywiol, sef 'Popeth rydym angen ei wybod', cynigiwyd gwybodaeth allweddol yn ymwneud â diogelu plant, ynghyd ag adnoddau a chyngor i deuluoedd ac ymarferwyr ledled Cymru. Fel rhan o hyn oll, datblygwyd adnodd er mwyn cynorthwyo i gyflwyno'r negeseuon hynny.

Ceid tystiolaeth ynglŷn â'r angen i ddatblygu rhagor o adnoddau a allai helpu rhieni/gofalwyr plant â nodweddion gwarchodedig i ddeall y materion yn well a chadw'u plant yn ddiogel. Comisiynwyd y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST), Anabledd Dysgu Cymru a Stonewall Cymru i weithio gyda Stop it Now Cymru er mwyn datblygu adnoddau ychwanegol. Gan weithio ar y cyd â rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr, yn 2021 datblygwyd a chyhoeddwyd cyfres o adnoddau ar gyfer y canlynol:

- Rhieni/gofalwyr plant LHDTC+
- Rhieni/gofalwyr ag anabledd dysgu
- Fersiwn Hawdd ei Deall
- Rhieni/gofalwyr plant ag anabledd dysgu
- Rhieni/gofalwyr o leiafrifoedd ethnig

Ceir adnoddau mewn 12 o ieithoedd yn ychwanegol at y Gymraeg a'r Saesneg Adnoddau - Stop It Now.

Hyrwyddwyd yr adnoddau hyn trwy gyfrwng rhwydweithiau partneriaid diogelu a chawsant eu harddangos mewn cynhadledd ddigidol genedlaethol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2021, a oedd yn cynnwys dros 400 o gynrychiolwyr.

Hefyd, cyflwynodd Stop it Now Cymru raglen ddysgu o'r enw 'Parents Protect' trwy gyfrwng Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r cyllid wedi'i ymestyn tan 2025 fel y gellir parhau â'r gwaith hwn. Nod y rhaglen ddysgu 12 rhan hon ar gam-drin plant yn rhywiol yw ateb cwestiynau a rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i oedolion er mwyn eu helpu i wneud y canlynol:

- deall risgiau posibl
- adnabod arwyddion camdriniaeth mewn plant ac oedolion
- meithrin hyder er mwyn atal camdriniaeth
- sylweddoli pam nad yw plant yn siarad am gamdriniaeth
- gwybod ble i fynd am gymorth os oes ganddynt bryderon

Mae Stop it Now Cymru yn gweithio gydag Anabledd Dysgu Cymru i ddatblygu fersiynau Hawdd eu Deall o'r ffilmiau hyn. Bydd gan bob un ohonynt gyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain ar y sgrin.

Ymhellach, mae Stop it Now Cymru yn mynd i'r afael â phrosiect 'Rhaglen Ymyrraeth Gynnar' a ariennir trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r prosiect hwn yn cynnig ymyrraeth gynnar o ddau fath i deuluoedd agored i niwed neu deuluoedd mewn perygl yng Nghymru. Un ar gyfer grwpiau bach o rieni a'r llall ar gyfer teuluoedd agored i niwed neu deuluoedd mewn perygl. Helpu rhieni a gofalwyr - Stop It Now

### Cam Gweithredu 9

Ceir deddfwriaeth yng Nghymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddiogelu pobl rhag niwed. Pan gaiff gwasanaethau eu comisiynu gan gyrff cyhoeddus, ceir gofynion contractiol i sicrhau trefniadau diogelu. Fodd bynnag, ni fydd pob unigolyn, grŵp neu sefydliad yn gallu cael gafael ar gymorth i weithredu'n ddiogel yn y ffordd hon. Efallai na fydd rhai yn sylweddoli pa mor bwysig yw cael trefniadau diogelu ac efallai na fydd rhai yn gwybod ble i fynd i gael cyngor a chymorth.

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd **Llywodraeth Cymru** Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: cod ymarfer diogelu | LLYW.CYMRU. Ymhellach, cyhoeddwyd gwybodaeth i bobl sy'n mwynhau gweithgareddau neu sy'n defnyddio gwasanaethau, a'u rhieni/gofalwyr.

Mae'r cyngor hwn wedi cael ei hyrwyddo gan y Byrddau Diogelu Plant a thrwy rwydweithiau perthnasol grwpiau ffydd, grwpiau chwaraeon a'r sector gwirfoddol ac ati.

### Cam Gweithredu 10

Yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau'n dwyn y teitl Cam-drin rhywiol gan gyfoedion, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol | LLYW.CYMRU. Comisiynwyd yr NSPCC a Barnardo's Cymru i weithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio'r cyngor hwn. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi adnoddau ymarferol i leoliadau addysg er mwyn atal ac ymateb i achosion o gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion. Gall yr achosion hyn ddigwydd y tu mewn a'r tu allan i'r lleoliadau hynny. Mae'n cynnwys cam-drin a chamfanteisio digidol. Dylai lleoliadau addysg ddefnyddio'r canllawiau hyn i greu polisïau clir i atal ac ymateb i achosion o gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion, fel y gall pob plentyn sy'n mynychu eu lleoliadau wireddu ei hawl i fod yn ddiogel a'i hawl i gael addysg.

### Cam Gweithredu 11

Mae plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol a phlant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol angen cymorth gan eu rhieni/gofalwyr. Trwy gyfrwng gwaith

ymchwil ac ymgynghoriadau, mae rhieni a gofalwyr wedi dweud eu bod yn cael anhawster i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'w plentyn, sut fath o ymyrraeth sydd ar gael a sut y gallant gynorthwyo eu plentyn.

Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru** gomisiynu Barnardo's Cymru i lunio dau ganllaw i rieni/gofalwyr. Mae'r canllawiau hyn wedi'u cyhoeddi a'u hyrwyddo gyda phartneriaid diogelu:

Harmful Sexual Behaviour – Parent's guide.pdf (barnardos.org.uk)

A Guide for Parents and Carers Providing Care, Support and Protection to children at risk of or who have been harmed by CSE.pdf (barnardos.org.uk)

Yn achos ymarferwyr, penderfynodd **Llywodraeth Cymru** gomisiynu Dr Sophie Hallett o Brifysgol Caerdydd i lunio adnoddau a sesiynau dysgu ar-lein yn ymwneud â diogelu pobl ifanc rhag cael eu cam-drin yn rhywiol a materion diogelu cysylltiedig megis camfanteisio'n droseddol ar blant, masnachu mewn plant a mynd ar goll. Cyhoeddwyd y rhain yn 2021.

Gwiriwch eich Ffordd o Feddwl – Adnoddau i ategu ymarfer diogelu gyda phobl ifanc, i'w defnyddio gan bawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn gofalu amdanynt.

Ymhellach, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Barnardo's Cymru i lunio cyngor a sesiwn ddysgu ar-lein ar gyfer ymarferwyr yn ymwneud ag ymarfer seiliedig ar dystiolaeth gyda phlant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.

WG - Harmful Sexual Behaviour - PROFESSIONAL GUIDE (barnardos.org.uk)

Better Futures Cymru – Preventing and responding to CSA | Barnardo's - YouTube

## Cam Gweithredu 12

Datblygwyd llawer o adnoddau yn sgil camau gweithredu'r Cynllun. Ymhellach, ceir adnoddau defnyddiol gan sefydliadau arbenigol – adnoddau na chawsant eu datblygu oherwydd y Cynllun. Fodd bynnag, os na fydd ymarferwyr yn ymwybodol bod yr adnoddau hyn ar gael i ategu eu hymarfer ac i'w rhannu gyda theuluoedd, bach fydd eu heffaith.

Dywedodd yr holl **Fyrddau Diogelu Plant** eu bod wedi hyrwyddo adnoddau a ddatblygwyd o dan y Cynllun trwy rwydweithiau rhanbarthol. Roedd hyn yn cynnwys rhaeadru negeseuon cyfathrebu, e-fwletinau a chylchlythyrau, a hefyd trwy gyfrwng rhwydweithiau'n ymwneud yn benodol â'r sector. Mae gan dri Bwrdd Diogelu Plant o blith y chwech adran yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol ar eu gwefannau, a dywedodd un bwrdd arall ei fod wrthi'n datblygu adran benodol ar ei wefan.

**Bwrdd Diogelu Plant CYSUR (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Mae Heddlu Dyfed Powys wedi rhannu a dosbarthu adnoddau “Stop it Now” Llywodraeth Cymru i swyddogion sy’n ymateb i rieni/gofalwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, rhieni/gofalwyr â phlant anabl, rhieni/gofalwyr â phlant LHDT+ ac ymarferwyr er mwyn iddynt allu deall beth yw cam-drin plant yn rhywiol a gweld sut y gallant helpu i gadw plant yn ddiogel.

## Cam Gweithredu 13

Mae ymarferwyr wedi dweud wrthym fod cam-drin plant yn rhywiol yn faes ymarfer nad ydynt yn hyderus iawn ynddo. Mae cynigion dysgu yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod pawb sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn gallu adnabod risgiau cam-drin plant yn rhywiol, ynghyd â deall ac ymateb i’r cam-drin hwnnw, yn cynnwys camfanteisio’n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol.

Soniodd yr holl **Fyrddau Diogelu Plant** am amrywiaeth eang o weithgareddau’n ymwneud â hwyluso a hyrwyddo cynigion dysgu ar draws eu priod ranbarthau.

Roedd **Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg** yn ardal beilot ar gyfer hyfforddiant a gyflwynwyd gan y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol – sef pecyn hyfforddi'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol. Cafodd yr hyfforddiant hwn gryn groeso a chafodd ei gyflwyno dros sawl sesiwn i amryfal asiantaethau. Mae nifer o sesiynau hyfforddi dilynol wedi'u cynnal gan asiantaethau unigol er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd yn y cwrs yn cael ei ledaenu trwy bob sector. Erbyn hyn, mae gan y rhanbarth 'arweinwyr ymarfer' yn yr holl asiantaethau statudol cyfansoddol; ac ar ôl iddynt gwblhau'r hyfforddiant hwn, maent yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i hyrwyddo'u harbenigedd ymhlith eu cydweithwyr. Y gobaith yw y bydd y dull hwn yn annog ymarferwyr i geisio cyngor ac arweiniad gan eu harweinwyr ymarfer ac y gallant adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol, a delio â'r achosion hynny, yn fwy hyderus.

Rhoddodd **Bwrdd Diogelu Plant CYSUR (Canolbarth a Gorllewin Cymru)** wybod bod rhaglen hyfforddi'n ymwneud â diogelu wedi cael ei datblygu gan y Diogelwyr Iau, a hynny ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed yn Sir Benfro. Dyma adnodd hyfforddi ar-lein rhyngweithiol sy'n cynnwys sgriptiau i hwyluswyr a deunyddiau ategol. Mae'r hyfforddiant hwn yn cwmpasu cydberthnasau iach, cydsynio a cham-drin plant yn rhywiol. Mae'r hyfforddiant yn rhad ac am ddim ac mae wedi'i hyrwyddo ymhlith ysgolion a staff addysg.

Dywedodd **Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf Morgannwg** fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu hyfforddiant yn ymwneud â gweithredu canllawiau statudol ar ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol a chyflwynwyd ymarfer seiliedig ar dystiolaeth gan Dr Sophie Hallett o Brifysgol Caerdydd trwy gyfrwng dwy sesiwn ar-lein ranbarthol. Yn ystod Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2021, cyflwynodd Llwybrau Newydd sesiwn i ymarferwyr yn ymwneud â 'Delio â Datgelu Cam-drin Plant yn Rhywiol'.

Datblygodd a dosbarthodd **Bwrdd Diogelu Plant Gwent** fenter ddysgu fer mewn tair rhan, gan gyflwyno a hyrwyddo'r arfer o ddefnyddio tri adnodd ar gyfer ymarferwyr, sef adnoddau'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol a ddatblygwyd yn ddiweddar gan y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol. Mae'r adnoddau hyn a anelir at ymarferwyr yn ymdrin â'r themâu canlynol: 1) Pennu pryderon 2) Ymateb i bryderon 3) Cefnogi teuluoedd.

Fe wnaeth **Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru** wahodd Dr Sophie Hallett o Brifysgol Caerdydd i adolygu canfyddiadau allweddol adroddiad IICSA ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mewn gweithdy, tynnwyd sylw at ganfyddiadau allweddol adroddiad IICSA ac ystyriwyd y gwaith ymchwil yng Nghymru a'r gwaith ymchwil ehangach yn y DU, er mwyn gweld sut y gellid ymateb i'r hyn a ddysgwyd. Roedd y digwyddiad hwn wedi'i anelu at Ymarferwyr Amlasiantaethol o bob rhan o Ogledd Cymru.

Comisiynodd **Bwrdd Diogelu Plant Gorllewin Morgannwg** hyfforddiant gan Stop it Now Cymru/Sefydliad Lucy Faithfull. Roedd y sesiynau hyfforddi'n ymdrin â'r canlynol – deall pobl sy'n cam-drin plant yn rhywiol a hyrwyddo llwybrau cadarnhaol i bobl ifanc sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae awdurdod lleol Abertawe wedi ffurfio gweithgorau sy'n ystyried materion yn ymwneud ag amrywiaeth a'r modd mae camfanteisio'n effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig, fel pobl LHDTC+, pobl ag anableddau a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

## Edrych tua'r dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu nifer o sefydliadau i ddatblygu adnoddau a chynigion dysgu er mwyn codi ymwybyddiaeth rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r

cyhoedd o sut y gallant helpu i gadw plant yn ddiogel rhag cael eu cam-drin yn rhywiol, oherwydd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol.

Mae yna amrywiaeth eang o adnoddau a chynigion dysgu mynediad agored ar waith.

Mae'r holl Fyrddau Diogelu Plant wedi cyflawni'n dda iawn ar sail y camau gweithredu hyn, gan greu cyfleoedd i hyrwyddo adnoddau ac ymgysylltu â sefydliadau arbenigol er mwyn cyflwyno hyfforddiant.

Rhaid i'r gwaith hwn barhau. Mae trosiant o fewn y gweithlu yn golygu y ceir ymarferwyr newydd a fydd angen cymorth i ddeall ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Rhaid parhau â'r gwaith o dynnu sylw rhieni/gofalwyr at yr adnoddau sydd ar gael. Mae gan Fyrddau Diogelu Plant rôl ganolog yn hyn o beth ac mae gan ymarferwyr rôl o ran rhannu adnoddau gyda'r teuluoedd y gweithiant gyda nhw.

### Amcan 4: Mwy o ymwybyddiaeth o sut y gall diogelu corfforaethol gyfrannu at atal cam-drin plant yn rhywiol.

Mae diogelu corfforaethol yn hollbwysig o ran sicrhau bod mesurau digonol ar waith i gadw plant yn ddiogel. Hefyd, mae diogelu corfforaethol yn bwysig o ran atal camdriniaeth sefydliadol.

Gwelir bod cymdogaethau yn fannau lle gall pobl ifanc ddod ar draws camdriniaeth a thrais a/neu gael eu diogelu rhag camdriniaeth a thrais. Er bod asiantaethau eisoes yn gweithio i gadw pobl ifanc yn ddiogel y tu allan i'w cartrefi, megis swyddogion diogelu cymdogaethau a'r heddlu, prif ganolbwynt y gwaith hwn yw atal troseddu yn hytrach na chanolbwyntio ar lesiant plant a diogelu plant.

### Camau Gweithredu 14 ac 15

Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru** gomisiynu Practice Solutions, mewn partneriaeth â Plant yng Nghymru, i lunio canllawiau'n ymwneud â diogelu corfforaethol ar gyfer awdurdodau lleol. Ategwyd y gwaith hwn gan grŵp cynghori amlasiantaethol a oedd yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), a gyhoeddodd Diogelu Corfforaethol: Canllaw Arferion Da ym mis Mai 2022.

Cwblhawyd y gwaith hwn yn hwyrach na'r disgwyl oherwydd y pandemig. O'r herwydd, ychydig o amser yn unig a gafodd **Byrddau Diogelu Plant** a'u partneriaid i adolygu eu polisïau ar sail y canllaw arferion da. Fodd bynnag, dywedodd yr holl **Fyrddau Diogelu Plant** eu bod wedi lledaenu'r canllaw trwy'r rhanbarth ac y byddant yn mynd i'r afael â rhagor o waith er mwyn ystyried y cyngor a nodir ynddo.

**Bwrdd Diogelu Plant CYSUR (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynhaliwyd digwyddiad hyrwyddo yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol ym mis Tachwedd 2022, gyda'r nod o hyrwyddo'r canllaw ymhlith timau a gwasanaethau nad ydynt yn perthyn i'r gwasanaethau diogelu craidd, megis timau ieuenctid, tai ac adrannau trwyddedu ac ati.

**Cam Gweithredu 16**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur sefyllfa'n ymwneud â defnyddio diogelu cyd-destunol fel dull ymarfer y tu allan i'r dull a bennir yn y canllaw statudol ar ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol.

Dehonglwyd y cam gweithredu hwn ar gyfer **Byrddau Diogelu Plant** mewn gwahanol ffyrdd gan wahanol Fyrddau. Roedd y cam gweithredu'n ymwneud â threialu dull Pecyn Cymorth Asesu Cymdogaethau, a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol.

Yn ôl Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, mae Heddlu Gogledd Cymru (gyda chyfraniadau gan bartneriaid) wedi llunio Proffilau Cymunedol da iawn yn ddiweddar.

Bwriad arall y cam gweithredu hwn oedd ategu'r arfer o ddefnyddio diogelu cyd-destunol fel ffordd o greu lleoedd a mannau mwy diogel i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau.

**Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg**

Mae tîm SAFE (Diogelu'r Glasoed rhag Camfanteisio) Caerdydd yn cynnal asesiad o'r ardal leol. Nod yr asesiad yw archwilio a chymharu profiadau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn gwahanol ardaloedd ledled Caerdydd, a deall pa ffactorau o fewn eu cymdogaethau a'u cymunedau a allai eu diogelu rhag camfanteisio neu a allai gyfrannu at risgiau camfanteisio. Bydd canlyniadau pob asesiad yn cael eu cyflwyno gerbron Grŵp Partneriaeth SAFE ar broffil un dudalen. Bydd y proffil yn nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda yn yr ardal, pa bryderon a geir yn yr ardal honno a beth a allai helpu i ddiogelu plant rhag dioddef camfanteisio yn yr ardal honno. Yna, bydd Grŵp Partneriaeth SAFE yn penderfynu beth sydd angen ei wneud i ymdrin ag unrhyw broblemau yn yr ardal, gan bennu camau gweithredu wrth symud ymlaen.

## Edrych tua'r dyfodol

Mae canllaw diogelu corfforaethol bellach ar waith; ac er mai ychydig o amser yn unig a gafodd Byrddau Diogelu Plant i dynnu sylw eu partneriaid ato er mwyn iddynt allu adolygu eu polisïau eu hunain ar ei sail, mae'r gwaith hwn wedi dechrau. Bydd cyfraniad CLlLC at ddatblygu, cyhoeddi a chynnal y canllaw yn helpu i dynnu sylw cyrff cyhoeddus at y cyngor.

Er bod pob rhanbarth wedi ystyried mewn rhyw ffordd y pethau a ddysgwyd yn sgil Diogelu Cyd-destunol, dylai partneriaethau rhanbarthol roi ystyriaeth i gynnal rhagor o waith er mwyn ystyried asesiadau cymunedol/cymdogaethau – h.y. partneriaethau sy'n delio â chamfanteisio rhywiol ar blant a materion cysylltiedig yn ymwneud â chamfanteisio troseddol ar blant, plant yn mynd ar goll a masnachu mewn plant. Mae sefydlu partneriaethau rhanbarthol o'r fath yn un o ofynion y canllaw statudol [Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol | LLYW.CYMRU]

## Trefniadau ar gyfer AMDDIFFYN plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol

Un anhawster wrth amcangyfrif pa mor gyffredin yw cam-drin plant yn rhywiol yw'r ffaith bod y gamdriniaeth yn dal i fod ynghudd i raddau helaeth. Rhaid i ymarferwyr ac oedolion cyfrifol eraill allu adnabod yr arwyddion posibl a chymryd camau. Mae plant yn cadw'n dawel am sawl rheswm – ofni'r sawl sy'n eu cam-drin, dim eisiau achosi helynt i'r sawl sy'n eu cam-drin, teimlo mai nhw sydd 'ar fai' a theimlo'n gyfrifol am yr hyn a fydd yn digwydd i'r teulu pe baent yn dweud beth sy'n digwydd. Trwy sicrhau bod plant, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin ac ymarferwyr yn deall yn well beth yw cam-drin plant yn rhywiol, bydd modd helpu i adnabod a datgelu camdriniaeth a bydd modd amddiffyn plant cyn gynted â phosibl.

### Amcan 5: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith plant o ffyrdd diogel o ddatgelu cam-drin rhywiol neu berygl o gam-drin rhywiol ac o'r hyn fydd yn digwydd pan fyddant yn dweud wrth rywun.

### Cam Gweithredu 17, Cam Gweithredu 18, Cam Gweithredu 19, Cam Gweithredu 20

Mae **Llywodraeth Cymru** wedi datblygu a hyrwyddo adnoddau ar gyfer ysgolion er mwyn cynorthwyo plant a phobl ifanc i godi llais ynghylch camdriniaeth. Ceir tri phoster – un ar gyfer plant ysgolion cynradd, un ar gyfer plant ysgolion uwchradd a phobl ifanc, ac un ar gyfer staff ysgolion. Hyrwyddwyd y rhain trwy gyfrwng y Grŵp Diogelu Addysg, sef rhwydwaith o Arweinwyr Diogelu Addysg o awdurdodau lleol. Adnoddau – Hwb (llyw.cymru)

Mae'r holl **Fyrddau Diogelu Plant** wedi sôn am waith sy'n anelu at ddarparu gwybodaeth i blant trwy gyfrwng ysgolion a lleoliadau addysg.

**Bwrdd Diogelu Plant CYSUR (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Mae plant sy'n mynychu'r ysgol yn cymryd rhan mewn rhaglen waith yn ymwneud â chydberthnasau priodol oddi mewn ac oddi allan i'r teulu. Yn y rhaglen hon, cynhwysir adnoddau lle sonnir am godi llais ynghylch camdriniaeth:

- Mewn Ysgolion Cynradd, cynhelir sesiynau a gyflwynir gan yr NSPCC, megis 'Cofia Ddweud, Cadw'n Ddiogel'.
- Caiff llu o bosteri eu harddangos mewn Ysgolion, gan dynnu sylw at wasanaethau cymorth fel MEIC, Childline, yr NSPCC ac ati.
- Amser Cylch a defnyddio emojis ar gyfer plant Ysgolion Cynradd, er mwyn iddynt allu datgelu.
- Defnyddio Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol a Gwasanaethau Cwnsela Ysgolion er mwyn cynnig amgylchedd diogel i ddatgelu.
- Mae Swyddogion Rhawd Ysgolion yn cyflwyno sesiynau, megis 'Cydsynio', er mwyn tynnu sylw at gam-drin.
- Holiaduron llesiant.

Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru** gomisiynu Childline/yr NSPCC i lunio gwybodaeth i blant a phobl ifanc yn ymwneud â chodi llais ynghylch camdriniaeth a chael help. Un ar gyfer plant dan 12 oed ac un ar gyfer plant dros 12 oed.

[Getting Help To Keep Safe (u12) | Childline]

[Getting help to keep safe | Childline]

Soniodd yr holl **Fyrddau Diogelu Plant** am waith i hyrwyddo adnoddau a darparu gwybodaeth i blant.







Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Dr Sophie Hallett o Brifysgol Caerdydd i lunio adnoddau a sesiynau dysgu ar-lein yn ymwneud â diogelu pobl ifanc rhag cael eu cam-drin yn rhywiol a materion diogelu cysylltiedig megis camfanteisio'n droseddol ar blant, masnachu mewn plant a mynd ar goll. Roedd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys animeiddiad yn ymwneud â'r cymorth sydd ar gael i blant.

[Deunyddiau i bobl ifanc – Gwiriwch eich Ffordd o Feddwl]

Dywedodd yr holl **Fyrddau Diogelu Plant** eu bod wedi hyrwyddo gwybodaeth i blant – h.y. gwybodaeth ynglŷn â chodi llais ynghylch camdriniaeth a'r hyn a fyddai'n digwydd pe baent yn dweud wrth rywun.

Mae **Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf Morgannwg** wedi tagio gwasanaethau, sefydliadau a grwpiau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd mewn postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, sef postiadau'n sôn am wybodaeth a dolenni at adnoddau'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein. Aethpwyd ati i gysylltu â mudiadau gwirfoddol yn holl ardaloedd awdurdodau lleol Cwm Taf Morgannwg er mwyn gofyn iddynt anfon gwybodaeth ac adnoddau'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein at y grwpiau hynny o fewn eu rhwydweithiau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, fel y gellid rhannu'r adnoddau.

Yn ôl **Bwrdd Diogelu Plant Gorllewin Morgannwg**, lledaenwyd yr adnoddau trwy rwydweithiau. Hefyd, cyflwynwyd hyfforddiant yn ymwneud â 'Delio â datgelu trais rhywiol'. Mae pob ysgol yn hyrwyddo pobl ddiogel a mannau diogel y gall disgyblion fynd iddynt os oes ganddynt ofidiau neu bryderon.

## Edrych tua'r dyfodol

Datblygwyd a dosbarthwyd nifer o adnoddau ar gyfer plant trwy gamau gweithredu'r Cynllun; a thrwy gyfrwng eu rhwydweithiau, mae'r holl Fyrddau Diogelu Plant wedi gweithio i hyrwyddo gwybodaeth i blant yn ymwneud â chodi llais ynghylch camdriniaeth a chael help, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, yng ngham nesaf y gwaith, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod gwybodaeth i blant yn cael ei rhannu yn y lleoedd a'r mannau a ddefnyddir ganddynt, yn cynnwys platfformau cyfryngau cymdeithasol ar-lein. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y ffyrdd gorau o rannu'r wybodaeth hon a pha adnoddau newydd y gall fod eu hangen.

## Amcan 6: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin o'r hyn a ddylai ddigwydd os yw plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, o sut i gynorthwyo plant, ac o sut i gael cymorth iddyn nhw eu hunain.

## Cam Gweithredu 21 a Cham Gweithredu 22

Ychydig iawn o waith ymchwil sydd wedi'i gynnal i'r effaith a gaiff cam-drin plant yn rhywiol ar rieni nad ydynt yn cam-drin, ond mae'r dystiolaeth a geir yn awgrymu bod rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin angen mynediad at wybodaeth ynglŷn â'r prosesau a ddefnyddir i ymchwilio i gam-drin rhywiol, a'u bod hefyd angen mynediad at gyngor ynglŷn â sut i gynorthwyo'u plentyn/plant a chymorth gyda'r effaith emosiynol a gaiff camdriniaeth o'r fath ar y plentyn a'r teulu.

Aeth **Llywodraeth Cymru** ati i gomisiynu Stop it Now Cymru/Sefydliad Lucy Faithfull i lunio gwybodaeth ar gyfer rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin. Gweithiodd y sefydliad ar y cyd â rhieni/gofalwyr, ymarferwyr ac oedolion a oedd wedi goroesi cael eu cam-drin er mwyn llunio'r cyngor hwn.




Mae'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth ymarferol ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd pe bai ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r posibilrwydd bod eu plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol. Lawrlwythwch y daflen

Dywedodd yr holl **Fyrddau Diogelu** eu bod wedi hyrwyddo gwybodaeth ar gyfer rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin ar draws rhwydweithiau diogelu yn eu rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys Taflen Stop it Now Cymru, a hefyd dywedodd rhai

Byrddau eu bod wedi rhannu adnoddau a gawsant gan y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol [Supporting Parents and Carers Guide - CSA Centre](). Ariannwyd yr adnoddau hyn yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

**Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf Morgannwg**

Rhoddodd Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf Morgannwg wybod bod cais wedi'i wneud i gael copïau caled o'r ddogfen hon ar gyfer Heddlu De Cymru, er mwyn i'r heddlu allu rhannu'r copïau hynny gyda rhieni plant a allai fod yn gysylltiedig ag ymchwiliad i gam-drin rhywiol.

### Edrych tua'r dyfodol

Mae'r holl Fyrddau Diogelu wedi hyrwyddo gwybodaeth ar gyfer rhieni nad ydynt yn cam-drin. Mae angen ystyried y ffordd orau o rannu'r wybodaeth hon. O ran yr enghraifft y soniodd Cwm Taf Morgannwg amdani, sef cynhyrchu copïau caled ar gyfer yr Heddlu, byddai modd i heddluoedd mewn ardaloedd eraill wneud yr un peth.

## Amcan 7: Bod gan ymarferwyr fynediad at adnoddau a hyfforddiant i'w paratoi ar gyfer ymateb yn effeithiol, yn amserol ac yn briodol i blant sy'n wynebu risg neu sydd wedi eu cam-drin trwy gam-drin plant yn rhywiol.

### Cam Gweithredu 23 a Cham Gweithredu 24

Mae ymarferwyr angen gwybodaeth am ddulliau profedig o gynorthwyo plant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol fel y gellir hybu eu hadferiad a'u llesiant, a hefyd maent angen gwybodaeth am gymorth ar gyfer aelodau teuluol a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin – sef rhai sy'n cynorthwyo plant y'u camdriniwyd yn rhywiol i adfer. Mae **Llywodraeth Cymru** wedi rhannol ariannu un o raglenni gwaith y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol er mwyn llunio adnoddau a sesiynau dysgu ar-lein i ymarferwyr sy'n gweithio ar draws asiantaethau.

[Supporting practice in tackling child sexual abuse - CSA Centre]()

[Supporting Parents and Carers Guide - CSA Centre]()

[Communicating with Children Guide - CSA Centre]()

[Signs & Indicators Template - CSA Centre]()

Mae'r holl **Fyrddau Diogelu Plant** wedi cyflwyno tystiolaeth ynglŷn â chyfleoedd dysgu i ymarferwyr ar gyfer delio â datgelu camdriniaeth, y broses ymchwilio a chynorthwyo teuluoedd mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt, ac mae pob un o'r Byrddau wedi hyrwyddo adnoddau a deunyddiau dysgu ar-lein a luniwyd gan y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

### Edrych tua'r dyfodol

Mae'r Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol a Stop it Now Cymru/Sefydliad Lucy Faithfull wedi bod yn allweddol o ran cynorthwyo Byrddau Diogelu Plant trwy weithdai a hyfforddiant er mwyn ategu dysgu a hyrwyddo

adnoddau i ymarferwyr. Fodd bynnag, mae’r gwaith hwn yn faes ymarfer lle mae gwasanaethau ac ymarferwyr yn dal i fagu hyder ynddo. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gellir cynnal dysgu yn y maes ymarfer hwn a beth fydd rôl Byrddau Diogelu Plant o ran ategu hyn oll.

Mae *Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol* yn cynnwys dolenni at yr adnoddau ymarfer a ddatblygwyd o dan y Cynllun. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn ystyried drafft terfynol *Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol* a’r bwriad yw cyhoeddi’r ddogfen gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol a diogelu plant y pryderir eu bod yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol eisoes ar gael. Gofal Cymdeithasol Cymru (safeguarding.wales)

Fe wnaeth **Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a’r Fro** hyrwyddo dysgu a ddaeth i’r amlwg yn sgil yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Hyrwyddwyd yr wybodaeth hon ymhlith ymarferwyr ledled y rhanbarth, a sicrhawyd bod sesiwn friffio 7 munud yn ymwneud â cham-drin rhywiol ar gael i’r staff.

Dywedodd **Bwrdd Diogelu Plant CYSUR (Canolbarth a Gorllewin Cymru)** fod hyfforddiant diogelu arbenigol haen uwch ar gael i ymarferwyr trwy’r pedwar awdurdod lleol, er mwyn ymdrin â’r gofyniad hwn. Yn ychwanegol at hyn, rhoddwyd hyfforddiant i ymarferwyr ledled y rhanbarth gan y CSA cenedlaethol sy’n cefnogi hyn.

Dywedodd **Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf Morgannwg** fod ymarferwyr wedi mynychu digwyddiad dysgu ar-lein a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, sef ‘Yr Hawl i fod yn Ddiogel – atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio rhywiol ar blant yng Nghymru’. Hefyd, cyflwynodd y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol weithdy yn y rhanbarth.

Cynhaliodd **Bwrdd Diogelu Plant Gwent** dair sesiwn hyfforddi undydd ar gyfer amryfal asiantaethau yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu. Hwyluswyd y sesiynau hyn gan y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol. Bydd yr hyfforddiant yn cynorthwyo ymarferwyr i gael gwell dealltwriaeth o beth yn union yw cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, gan eu helpu i adnabod arwyddion a dangosyddion ac ymateb yn effeithiol er mwyn amddiffyn plant. Mae’r Bwrdd yn bwriadu ailgomisiynu’r digwyddiadau hyfforddi hyn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mewn ymateb i’r Cynllun Gweithredu, aeth **Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru** ati i gomisiynu ychwaneg o Hyfforddiant Cydymchwilio a hyfforddiant Sicrhau’r Dystiolaeth Orau trwy gyfrwng Heddlu Gogledd Cymru. Cynhaliwyd yr hyfforddiant Cydymchwilio mewn modd rhithwir trwy ddilyn patrwm treigl. Ariannwyd yr hyfforddiant gan Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru (NWSB). Er mwyn diwallu’r galw, caiff tair sesiwn arall yn ymwneud â Sicrhau’r Dystiolaeth Orau eu cynnal ar hyn o bryd yn y rhanbarth.

Aeth **Bwrdd Diogelu Plant Gorllewin Morgannwg** ati i gomisiynu hyfforddiant trwy gyfrwng Stop it Now Cymru/Sefydliad Lucy Faithfull, a hefyd mae’r Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi cyflwyno hyfforddiant i ymarferwyr yn y rhanbarth.

## Trefniadau ar gyfer CYNORTHWYO plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol

Mae cam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein yn gallu cael effaith negyddol ar ganlyniadau llesiant plant, hyd yn oed pan fyddant yn oedolion. Rhaid i'r ffordd y byddwn yn ymateb i blant gynnwys cymorth seiliedig ar dystiolaeth sy'n debygol o'u cynorthwyo i adfer ar ôl trawma'r cam-drin, ynghyd â meithrin eu gwytnwch a sicrhau gwelliannau hirdymor yn eu llesiant.

### Amcan 8: Casglu tystiolaeth o ba mor aml y mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn digwydd er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol.

### Cam Gweithredu 25 a Cham Gweithredu 26

Y Gofrestr Amddiffyn Plant yw'r brif ffynhonnell ar hyn o bryd ar gyfer darganfod pa mor gyffredin yw achosion o gam-drin plant yn rhywiol, ond gwyddom na chaiff achosion o gam-drin plant yn rhywiol eu cofnodi'n ddigonol. Ar yr un pryd, mae'r gyfran o blant yng Nghymru sydd ar gynllun diogelu oherwydd camdriniaeth rywiol wedi gostwng dros y ddau ddegawd diwethaf. Yn aml, y Gofrestr Amddiffyn Plant yw'r brif ffynhonnell dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â phennu blaenoriaethau, dyrannu adnoddau a hyfforddiant.

Mae **Llywodraeth Cymru** wedi rhannol ariannu gwaith ymchwil o dan arweiniad y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, sef *Exploring the scale of CSA in social care records: Wales File Study* Gaining insights from practice - CSA Centre. Mae'r gwaith ymchwil yn tynnu sylw at sawl maes dysgu'n ymwneud ag adnabod a chofnodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Llwyddodd y gwaith ymchwil hwn i lywio gwaith ymchwil pellach gan y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ar gyfer llunio adnoddau a sesiynau dysgu ar-lein i wella ymarfer.

Dywedodd pum Bwrdd Diogelu Plant o blith y chwech eu bod wedi ystyried canfyddiadau'r gwaith ymchwil. Dywedodd Bwrdd Diogelu Plant Gorllewin Morgannwg y bydd yn aros hyd nes y cyhoeddir yr Ymchwiliad Annibynnol terfynol i Gam-drin Plant yn Rhywiol cyn penderfynu ar unrhyw gamau.

Dywedodd **Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg** fod y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi cyflwyno gweithdy'n ymwneud â 'Defnyddio tystiolaeth er mwyn helpu i gynllunio gwasanaethau i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol'. O ganlyniad, cytunodd aelodau'r Bwrdd y byddai'n rhaid i adolygiad o waith diweddar ar ddrafftio Fframwaith Perfformiad roi ystyriaeth i'r math o ddata a gyflwynwyd yn y gweithdy hwn, gan sicrhau bod y Bwrdd yn cael gweld y math hwn o wybodaeth, ac yn arbennig y tueddiadau.

Trefnodd **Bwrdd Diogelu Plant CYSUR (Canolbarth a Gorllewin Cymru)** ddigwyddiad rhanbarthol a gyflwynwyd gan y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ym mis Mehefin 2022 ac fe'i mynychwyd gan uwch-arweinwyr strategol o sawl asiantaeth. Yng Nghymru yn 2021, ym Mhowys y câi achosion o gam-drin plant yn rhywiol eu cydnabod amlaf ar ffurf cofrestriadau yn y Gofrestr Amddiffyn Plant. Dyma enghraifft gadarnhaol o'r modd y gellir sicrhau bod cam-drin plant yn rhywiol yn cael ei enwi a'i gydnabod pan ddaw achosion gerbron y gynhadledd – mae categorïau deuol yn ategu'r gydnabyddiaeth hon. Aethpwyd i'r afael â llawer o waith yn 2021 i ddatblygu mwy ar set ddata Powys parthed Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Caiff y set ddata hon ei chyflwyno ym mhob cyfarfod MACE. Aethpwyd i'r afael â rhagor o waith gyda Llamau i ategu eu dull adrodd data. Defnyddir y gwaith hwn i lywio arferion da yn ehangach ledled y rhanbarth.

Dywedodd **Bwrdd Diogelu Plant Gwent** fod y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi cyflwyno gweithdy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn ogystal â rhannu data cyfredol yn ymwneud â'r rhanbarth gydag aelodau'r Bwrdd. Arweiniodd hyn at gam pellach er mwyn sicrhau y bydd y Bwrdd yn parhau i roi blaenoriaeth i achosion o gam-drin plant yn rhywiol y tu hwnt i ddiwedd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi cytuno i sicrhau y bydd y gwaith hwn yn parhau y tu hwnt i fis Mehefin 2022, ac ymlaen i'r cyfnod nesaf, trwy gyfrwng gweithgor pwrpasol er mwyn ystyried nifer o gamau yn cynnwys adolygu hyfforddiant, archwilio achosion er mwyn llywio dysgu, a'r posibilrwydd o ddefnyddio offer arwyddion a dangosyddion yn rhanbarth Gwent.

Dywedodd **Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru** fod y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi rhoi cyflwyniad i'r Bwrdd yn sôn am ddatgelu graddfa cam-drin plant yn rhywiol mewn cofnodion gofal cymdeithasol. Mewn ymateb i'r cyflwyniad, mae'r Bwrdd yn adolygu ei weithlu a'i raglenni hyfforddi er mwyn sicrhau bod hyfforddiant allweddol ar gael ac er mwyn gwneud yn siŵr y ceir rhaglen waith archwilio wrth symud ymlaen.

## Edrych tua'r dyfodol

Eisoes, mae pum Bwrdd Diogelu Plant o blith y chwech yn bwrw ymlaen â gwaith yn ymwneud â systemau a dulliau o gasglu tystiolaeth ynglŷn â pha mor gyffredin yw achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn eu rhanbarth. Mae Bwrdd Diogelu Plant Gorllewin Morgannwg yn bwriadu ystyried y mater hwn ar ôl clywed argymhellion terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Cyflwynwyd enghraifft o arfer da mewn perthynas â Phowys, a gellir defnyddio'r enghraifft honno i lywio meysydd eraill.

Ar ôl i Fwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru gytuno ar *Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer diogelu plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol*, bydd y canllawiau hyn yn cynnwys dolen at Dempled Arwyddion a Dangosyddion y Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol. Bydd y dull ymarfer hwn yn ddefnyddiol o ran helpu i adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Hefyd, mae Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi sefydlu gweithgor er mwyn datblygu dull ymarfer a all gynorthwyo i adnabod achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Fel rhan o gam nesaf y gwaith, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o fonitro effaith y dulliau ymarfer hyn o ran helpu i adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol a gwella tystiolaeth ynglŷn â pha mor gyffredin yw'r cam-drin hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn helpu awdurdodau lleol i fesur a gwella perfformiad eu gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys monitro data'n ymwneud â phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio Mesurau perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

## Amcan 9: Bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a/neu wedi cael eu cam-drin yn rhywiol trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin rhywiol ar-lein yn cael mynediad at wasanaethau a lywir gan drawma a chymorth therapiwtig priodol sy'n seiliedig ar eu hanghenion gofal a chymorth unigol er mwyn gwella eu llesiant ac atal cam-drin rhag digwydd eto.

Pan fydd plentyn yn datgelu ei fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol neu pan geir tystiolaeth i awgrymu ei fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, dylid cyfeirio'r achos at Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Dyma gyfleuster pwrpasol a all gynnig gofal uniongyrchol a pharhaus i'r cleient, yn cynnwys cymorth meddygol, ymarferol ac emosiynol yng nghyd-destun trefniant partneriaeth rhwng yr heddlu, gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector. Mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn peri trawma, a bydd plant yn elwa ar wasanaethau sy'n ystyriol o drawma ynghyd â chymorth therapiwtig priodol i'w helpu i adfer.

## Cam Gweithredu 27 a Cham Gweithredu 28

Mae Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn brosiect gwella a gaiff ei arwain gan Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru a'i roi ar waith gyda Gwasanaethau Iechyd, yr Heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu, mewn partneriaeth â'r trydydd sector arbenigol. Mae'r rhaglen yn ysgogi'r arfer o gyflawni gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant/unigolion er mwyn sicrhau'r canlyniadau

gorau i'r rhai sydd wedi dioddef camdriniaeth a thrais rhywiol, gan roi lle canolog i lais y dioddefwyr. Mewn partneriaeth â'r trydydd sector, mae byrddau iechyd, heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi cytuno ar fodel gwasanaeth ar gyfer cyflawni gwasanaethau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn Ne Cymru, Dyfed Powys a Gwent. Hefyd, mae Gogledd Cymru wedi ymuno â'r rhaglen er mwyn sicrhau y ceir tegwch o ran darparu gwasanaethau ledled Cymru, ac mae wrthi'n ystyried cynllun ei wasanaethau. Bydd y model "prif ganolfan a lloerennau" yn cynnig gwasanaeth mwy integredig a gaiff ei ysgogi gan anghenion dioddefwyr a chleifion ac a fydd yn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni canllawiau a safonau clinigol, fforensig, ansawdd a diogelwch, gan sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn.

Fel rhan o Raglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru, mae cytundeb ar waith o ran y gwasanaethau a gaiff eu darparu gan Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru. Mae trefniadau gweithio cydweithredol, cadarn ar waith er mwyn sicrhau y rhoddir ymateb amlasiantaethol i'r rhai sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol – a'r nod yn y pen draw yw gwella canlyniadau iechyd y rhai sydd wedi dioddef a goroesi ymosodiadau rhywiol.

Ar hyn o bryd ceir llwybr clinigol ar gyfer achosion o gam-drin plant yn rhywiol, ac mae Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru wedi bod yn ystyried y llwybr hwn. Mae'r holl bartneriaid wedi cytuno ar, ac yn gweithio tuag at, fodel newydd a mwy integredig ar gyfer cyflawni gwasanaethau mewn perthynas â Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc fel ei gilydd. Mae'r model newydd wedi'i seilio ar ddull rhanbarthol a cheir Hybiau yng Nghaerdydd, Abertawe ac Aberystwyth. Hefyd, darperir gwasanaeth integredig yng Ngogledd Cymru.

### Cam Gweithredu 29

Mae Straen Trawmatig Cymru a'r Rhaglen Gwasanaethau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn ystyried gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma ynghyd â chymorth therapiwtig priodol i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Caiff Straen Trawmatig Cymru ei ariannu gan Lywodraeth Cymru (£1.2 miliwn yn flynyddol) a'i nod yw gwella iechyd a llesiant pobl o bob oedran yng Nghymru sydd mewn perygl o ddatblygu Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD) neu Anhwylder Straen Wedi Trawma Cymhleth (CPTSD). Mae'r fenter yn cwmpasu plant, pobl ifanc ac oedolion, mae'n eiddo ar y cyd i randdeiliaid perthnasol (yn cynnwys pobl sydd wedi byw gyda PTSD a CPTSD), a chaiff ei chydgynhyrchu a'i chydgyflawni gan y rhanddeiliaid hynny. Canolbwynt allweddol y gwaith yw gwella mynediad at therapïau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pobl sydd wedi mynd trwy ddigwyddiadau trawmatig, ac fe'i hategir gan ymchwil a gwaith gwella ansawdd sy'n anelu at ymdrin â bylchau mewn gwybodaeth, capasiti a gallu. Caiff addysg a hyfforddiant, ymchwil a datblygu, archwilio clinigol a methodolegau gwella eu defnyddio i ysgogi system sy'n dysgu'n barhaus a system sy'n fwyfwy effeithiol.

Mae gan Straen Trawmatig Cymru nifer o ffrydiau gwaith gwahanol sy'n canolbwyntio ar ymosodiadau rhywiol, cyfiawnder troseddol, mudwyr dan orfod, trawma amenedigol, oedolion, pobl ifanc, ac asesu a chanlyniadau.

Mae'r Ffrwd Waith Ymosodiadau Rhywiol yn Grŵp Cymru gyfan ac mae'n cynnwys pobl sy'n darparu ac yn gweithio mewn Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, ochr yn ochr â gwasanaethau eraill sy'n cynnig gofal a chymorth i bobl sydd wedi mynd trwy drawma rhywiol. Nod y grŵp yw datblygu llwybrau gofal effeithiol ar gyfer trawma ar draws pob darparwr iechyd a phob darparwr yn y trydydd sector –

sef llwybrau gofal cydgysylltiedig ac integredig ar draws gwasanaethau. Mae'r grŵp yn gwneud hyn trwy weithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau iechyd, mudiadau gwirfoddol a gwasanaethau statudol. Mae'n datblygu fframweithiau cymwyseddau a fydd yn ategu mentrau hyfforddi ar gyfer staff rheng flaen yn ogystal ag ar gyfer cyflawni therapïau trawma. Hefyd, mae cadeirydd y Ffrwd Waith Ymosodiadau Rhywiol yn arweinydd Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yng Nghydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru.

Mae Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn brosiect gwella a gaiff ei arwain gan Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru a'i roi ar waith gyda Gwasanaethau Iechyd, yr Heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu, mewn partneriaeth â'r trydydd sector arbenigol. Mae'r rhaglen yn ysgogi'r arfer o gyflawni gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant/unigolion er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r rhai sydd wedi dioddef camdriniaeth a thrais rhywiol, gan roi lle canolog i lais y dioddefwyr. Mewn partneriaeth â'r trydydd sector, mae byrddau iechyd, heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi cytuno ar fodel gwasanaeth ar gyfer cyflawni gwasanaethau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn Ne Cymru, Dyfed Powys, Gwent a Gogledd Cymru. Bydd y model yn cynnig gwasanaeth mwy integredig a gaiff ei ysgogi gan anghenion dioddefwyr a chleifion ac a fydd yn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni canllawiau a safonau clinigol, fforensig, ansawdd a diogelwch, gan sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn.

Mae datblygiadau eraill yng Nghymru hefyd yn cefnogi'r amcan hwn – yn cynnwys cyhoeddi Fframwaith: Cymru sy'n Ystyriol o Drawma yn ddiweddar, a ddatblygwyd gan Straen Trawmatig Cymru a'r Hyb ACE. Nod y Fframwaith holl-gymdeithas hwn yw cefnogi dull cydlynol a chyson o ddatblygu a gweithredu ymarfer sy'n ystyriol o drawma ledled Cymru, gan ddarparu'r cymorth gorau posibl i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Straen Trawmatig Cymru a'r Hyb Cymorth ACE i lunio cynllun gweithredu ar gyfer y fframwaith. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn ystyried y gwaith a'r adnoddau eraill y mae eu hangen i gyflwyno'r fframwaith – gallai hyn gynnwys gwaith ychwanegol gyda gwasanaethau sy'n cefnogi'r rhai a ddioddefodd gamdriniaeth rywiol pan oeddynt yn blant er mwyn eu helpu i weithio mewn ffyrdd sy'n ystyriol o drawma.

## Cam Gweithredu 30

Cafodd Barnardo's Cymru a Phrifysgol Caerdydd Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy gan **Lywodraeth Cymru** i gyflawni'r Prosiect Gwella. Nod y prosiect Gwella oedd lleihau'r risg y byddai plant agored i niwed yn dioddef camfanteisio rhywiol neu'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol trwy ddatblygu model atal i'w ddefnyddio mewn gofal cymdeithasol, er mwyn gwella llesiant plant. Caiff y dull ymarfer ei dreialu mewn nifer o awdurdodau lleol.

Er mwyn hyrwyddo'r pethau a ddysgwyd yn sgil y prosiect, yn 2020 cynhaliwyd Cynhadledd Ddigidol lwyddiannus yn ymwneud â'r Prosiect Gwella a chofrestrodd mwy na 600 o gynrychiolwyr ar gyfer y digwyddiad ar-lein.

Gwerthuso'r Dull Gwella – Ymchwil – Prifysgol Caerdydd

## Cam Gweithredu 31

Mae pedwar **Bwrdd Diogelu Plant** o blith y chwech eisoes wedi mynd i'r afael â pheth gwaith i adolygu a mapio cymorth therapiwtig yn eu rhanbarth. Fodd bynnag, dim ond Bwrdd Diogelu Plant Gwent sydd wedi cwblhau'r ymarfer hwn. Dywedodd

dau Fwrdd Diogelu Plant y byddant yn dechrau ar y gwaith hwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Ers cyhoeddi'r cynllun, mae gwaith Straen Trawmatig Cymru wedi datblygu'n sylweddol. Mae'r Ffrwd Waith Ymosodiadau Rhywiol yn grŵp Cymru gyfan. Mae'n cynnwys pobl sy'n gweithio mewn Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a hefyd mewn gwasanaethau eraill lle darperir gofal a chymorth i bobl (plant ac oedolion) sydd wedi mynd trwy drawma rhywiol. Nod y grŵp yw datblygu llwybrau gofal effeithiol ar gyfer trawma ar draws pob bwrdd iechyd – llwybrau cydgysylltiedig ac integredig ar draws gwasanaethau. Mae'r grŵp yn mynd i'r afael â'r gwaith hwn trwy weithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau iechyd, mudiadau gwirfoddol a gwasanaethau statudol. Mae'n datblygu fframweithiau cymwyseddau a fydd yn ategu mentrau hyfforddi ar gyfer staff rheng flaen yn ogystal ag ar gyfer cyflawni therapïau trawma.

Cynhaliodd **Bwrdd Diogelu Plant Gwent** adolygiad rhanbarthol o'r cymorth therapiwtig a oedd ar gael a'r bylchau yn y gwasanaeth. Bydd hyn yn cael ei ailystyried ochr yn ochr ag archwiliad gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent. Bydd y Bwrdd yn mynd ati i ailystyried gwybodaeth sy'n amlinellu'r cymorth therapiwtig a ddarperir yng Ngwent, a'i fwriad yw gofyn i Bartneriaid Iechyd weithio ar y cyd fel y gellir ymateb i unrhyw fylchau.

### Edrych tua'r dyfodol

Mae Rhaglen Gwasanaethau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Cymru a Straen Trawmatig Cymru yn ystyried gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma ynghyd â chymorth therapiwtig priodol i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

Gall gwaith mapio a wneir gan Straen Trawmatig Cymru lywio gwaith Byrddau Diogelu Plant.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Straen Trawmatig Cymru a'r Hyb Cymorth ACE i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer 'Fframwaith: Cymru sy'n Ystyriol o Drawma'.

## Amcan 10: Bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael gwybodaeth am wasanaethau cymorth i oedolion ac yn cael eu hatgyfeirio'n briodol i'r gwasanaethau hyn wrth iddynt gyrraedd 18 mlwydd oed.

### Cam Gweithredu 32 a Cham Gweithredu 33

Mae oedolion sydd wedi goroesi cael eu cam-drin yn rhywiol pan oeddynt yn blant wedi sôn am anawsterau a gânt o ran cael gafael ar wybodaeth yn ymwneud â ble i fynd i gael cyngor a chymorth ynglŷn ag effaith y profiad ar eu llesiant. Nid yw rhai goroeswyr yn datgelu eu bod wedi cael eu cam-drin hyd nes y byddant yn oedolion; yn achos goroeswyr eraill, daw i'r amlwg ystod eu plentyndod eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, ond mae trawma'r profiad a gawsant yn ystod eu plentyndod yn effeithio arnynt yn nes ymlaen yn eu bywydau.




Comisiynwyd Cymorth i Ferched Cymru gan **Lywodraeth Cymru** i ddatblygu taflen ar gyfer plant sydd ar fin cyrraedd 18 oed er mwyn eu hatgoffa bod help ar gael ar unrhyw adeg, ni waeth be fo'u hoedran. [Byw heb ofn: taflen yma i chi | LLYW.CYMRU]

Hefyd, rhoddodd **Llywodraeth Cymru** arian i Dîm Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru, Cydweithrediaeth Iechyd y GIG i gynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, yn cynnwys [ffilm] ac [animeiddiad] pwerus yn disgrifio'r gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir gan ganolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yng Nghymru.




Soniodd yr holl **Fyrddau Diogelu Plant** am waith yn ymwneud â hyrwyddo'r adnoddau hyn.

## Edrych tua'r dyfodol

Rhaid parhau i hyrwyddo'r wybodaeth hon yn eang ymhlith pobl sydd wedi goroesi cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae taflen wedi cael ei llunio a gellir mynd ati i'w hyrwyddo ymhellach. Bydd Tîm Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru, Cydweithrediaeth Iechyd y GIG yn parhau i hyrwyddo gwasanaethau.

## Polisïau perthnasol sy'n cyfrannu at amcanion y Cynllun

Pan gyhoeddwyd y Cynllun, nodwyd y dylid ei ddarllen ar y cyd â chynlluniau a strategaethau'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, trais rhywiol, a gwella cadernid digidol plant a phobl ifanc ar-lein.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chamfanteisio a cham-drin rhywiol ar-lein ac mae Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein yn pennu'r gwaith parhaus a wnawn gyda phartneriaid allweddol i gynorthwyo plant a phobl ifanc i fod yn ddiogel rhag niwed ar-lein.

Trwy gyfrwng yr adran Cadw'n ddiogel ar-lein ar Hwb, byddwn yn parhau i ddarparu llu o adnoddau'n ymwneud â diogelwch ar-lein ar gyfer ymarferwyr addysg, ysgolion, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. O Hydref 2022, byddwn yn sefydlu grŵp ieuenctid Cadw'n Ddiogel Ar-lein fel y gellir gwahodd plant a phobl ifanc i rannu eu profiadau o fod ar-lein a chyflwyno barn a sylwadau a fydd yn siapio ac yn llywio ein gwaith yn y maes hwn.

Rydym yn bartner mewn prosiect o'r enw 'Datblygu Gwrthwynebiad Rhag Meithrin Perthnasoedd Rhywiol Amhriodol Ar-lein' (DRaOG). Caiff y prosiect hwn ei arwain gan Brifysgol Abertawe ac mae wrthi'n datblygu 'DRAGON-Shield', sef pecyn adnoddau a phlatfform hyfforddi digidol rhyngweithiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru wastad wedi bod yn glir ynglŷn â'i huchelgais i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched. Mae trais yn erbyn menywod a merched yn broblem gymdeithasol ac mae angen ymateb cymdeithasol i'w ddatrys. Rhaid inni herio agweddau a newid ymddygiadau'r rhai sy'n ymddwyn mewn modd camdriniol.

Dyna pam mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn sicrhau y bydd yn canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod yn y strydoedd ac mewn gweithleoedd yn ogystal ag yn y cartref, fel y gellir gwneud yn siŵr mai Cymru fydd y lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw.

Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Datblygwyd y strategaeth hon ochr yn ochr â grŵp o sefydliadau partner allweddol, yn cynnwys yr heddlu, sectorau arbenigol a goroeswyr. Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU

Rhwng 7 Rhagfyr a 7 Chwefror, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Strategaeth ddrafft. Derbyniwyd mwy na 120 o ymatebion. Yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd gan sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, cafwyd ymatebion gan unigolion a oedd wedi goroesi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol neu unigolion yr effeithiwyd yn uniongyrchol ar eu bywydau oherwydd y materion hyn.

Mae'r Strategaeth yn nodi'r amcanion cyffredinol – sef y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni gwaith mewn partneriaeth â rhanddeiliaid er mwyn bwrw ymlaen â diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Bydd y strategaeth yn cael ei chyflawni trwy ddefnyddio dull Glasbrint, gan ddwyn ynghyd sefydliadau datganoledig ac annatganoledig a chryfhau'r bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a sectorau arbenigol.

Mae Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol newydd yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth. Caiff y Bwrdd hwn ei arwain gan Weinidogion a'i gydgadeirio gan Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu arweiniol Cymru. Bydd gwaith o ran cyflawni'r Strategaeth yn cael ei gydweddu â'n Rhaglen Lywodraethu, a cheir ffrydiau gwaith yn ymwneud ag aflonyddu ar y strydoedd a diogelwch mewn mannau cyhoeddus; aflonyddu mewn gweithleoedd; troseddau; comisiynu cynaliadwy, plant a phobl ifanc a phobl hŷn.

Mae clywed barn goroeswyr wedi bod yn elfen hynod bwysig o'r ymgynghoriad, a bydd llais y goroeswyr yn parhau i gael ei fwydo i'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a'i ffrydiau gwaith trwy ddatblygu Panel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr.

Mae'r Strategaeth yn defnyddio dull 'cwrs bywyd' o ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a hynny ar gyfer plant ac oedolion o bob oedran, gan gydnabod nodweddion cam-drin drwy gydol y camau gwahanol ym mywyd yr unigolyn.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda nifer o bartneriaid er mwyn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a oedd wedi'i hanelu at bobl ifanc, ynghyd ag arolwg ar-lein. Defnyddiwyd y rhain gan ein partneriaid yn y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol pan aethant ati i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, a hefyd cawsant eu hyrwyddo gan y Comisiynydd Plant a'r sefydliad Plant yng Nghymru.

## Y camau nesaf

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i argymhellion IICSA ar gyfer Cymru. Byddwn hefyd yn ystyried y meysydd y nodir yn yr adroddiad hwn bod angen gweithredu ymhellach arnynt.

Comisiynwyd Plant yng Nghymru i arwain rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid ddechrau 2023. Bydd hyn yn cynnig cyfle i bartneriaid gyflwyno adborth ar feysydd y nodwyd eisoes bod angen gweithredu arnynt, ynghyd â phennu unrhyw faterion eraill y dylid eu hystyried ar gyfer cam nesaf y gwaith.

Yna, bydd Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun gweithredu drafft. Ym Mehefin/Gorffennaf 2023 byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori ynglŷn â'r cynllun drafft gyda phlant a chanddynt brofiad bywyd, yn ogystal â rhanddeiliaid amlasiantaethol. Bydd hyn yn llywio'r broses o gyhoeddi cynllun gweithredu ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru yn ystod Hydref 2023.

Nid yw hyn yn golygu y bydd y gwaith ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn dod i ben yn Hydref 2023. Yn unol â'r rhwymedigaethau statudol a nodir yn ein

deddfwriaeth a'n canllawiau, ac a esbonnir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, bydd dyletswyddau i amddiffyn plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio – yn cynnwys cam-drin rhywiol – yn parhau. Ymhellach, mae'r holl Fyrddau Diogelu Plant wedi cytuno i barhau i adeiladu ar y gwaith a gychwynnwyd o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol (2019-2022).

# ATODIAD

Camau gweithredu a gyflawnwyd o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol rhwng 31 Gorffennaf 2019 a 30 Mehefin 2022.

| **Cam Gweithredu** | **Perchennog** |
|---|---|
| A1 – Datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i hybu agweddau tuag at gam-drin plant yn rhywiol a fydd yn cyfrannu at atal cam-drin. | Llywodraeth Cymru |
| A2 – Hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ym mhob rhanbarth ar hyd a lled Cymru. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A3. Cyhoeddi canllawiau i ysgolion ar addysg cydberthynas a rhywioldeb. | Llywodraeth Cymru |
| A4. Datblygu ymgyrch posteri ar gydberthnasau anniogel ac afiach ar gyfer plant a rhieni/gofalwyr. | Llywodraeth Cymru |
| A5. Hyrwyddo gwybodaeth i blant a rhieni/gofalwyr am gydberthnasau iach/afiach. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A6. Datblygu llwybr atgyfeirio clir er mwyn i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol dderbyn asesiad help cynnar, fel yr argymhellwyd yng nghanllawiau 2016 y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A7. Datblygu adnoddau i gynorthwyo rhieni/gofalwyr o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), rhieni/gofalwyr â phlant anabl a rhieni/gofalwyr â phlant LHDT+ ac ymarferwyr i ddeall cam-drin plant yn rhywiol a sut y gallant helpu i gadw plant yn ddiogel. | Llywodraeth Cymru |
| A8. Datblygu adnoddau i gynorthwyo rhieni/gofalwyr o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), rhieni/gofalwyr â phlant anabl a rhieni/gofalwyr â phlant LHDT+ ac ymarferwyr i ddeall cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destun materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a sut y gallant helpu i gadw eu plant yn ddiogel drwy ymgyrch codi ymwybyddiaeth a sesiynau dysgu. | Llywodraeth Cymru |
| A9. Datblygu ac ymgynghori ar god ymarfer diogelu gwirfoddol ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ysgol a chanllawiau cysylltiedig i rieni. | Llywodraeth Cymru |
| A10. Datblygu canllawiau ymarfer anstatudol i gefnogi'r rhai hynny sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg i reoli achosion o gamdriniaeth ymhlith cyfoedion o fewn lleoliadau addysg. Bydd y canllawiau'n darparu cyngor ar sicrhau, pan fydd pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol, y gall plant barhau i dderbyn addysg mewn modd sy'n ddiogel iddyn nhw ac i ddysgwyr eraill. | Llywodraeth Cymru |
| A11. Datblygu adnoddau gwybodaeth ar gyfer ymarferwyr a rhieni/gofalwyr ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol. | Llywodraeth Cymru |
| A12. Hyrwyddo gwybodaeth ac adnoddau ar gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd, gan gynnwys gwybodaeth y gall ymarferwyr ei rhannu â phlant a'u teuluoedd. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A13. Cefnogi ymarferwyr i ddysgu am gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |

| | |
|---|---|
| niweidiol a cham-drin ar-lein, gan gynnwys ymwybyddiaeth o ganllawiau, gweithdrefnau ac arweinlyfrau ymarfer perthnasol. Dylai hyn gynnwys hybu dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol yng nghyd-destun materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, fel rhywedd, ethnigrwydd, rhywioldeb ac anabledd. | |
| A14. Datblygu polisi diogelu corfforaethol enghreifftiol mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i'w ystyried gan bartneriaid ar y Byrddau Diogelu. | Llywodraeth Cymru |
| A15. Ystyried mabwysiadu polisi diogelu corfforaethol enghreifftiol. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A16. Ystyried dysgu o'r Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol ar gymdogaethau ac ystyried safle peilot rhanbarthol ar gyfer y pecyn cymorth Asesu Cymdogaeth. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A17. Hyrwyddo adnoddau i ysgolion sy'n rhoi gwybodaeth i blant am ffyrdd diogel o godi llais ynghylch camdriniaeth. | Llywodraeth Cymru |
| A18. Hyrwyddo adnoddau sy'n rhoi gwybodaeth i blant ar ffyrdd diogel o godi llais ynghylch camdriniaeth. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A19. Datblygu adnoddau i blant ar yr hyn fydd yn digwydd os byddant yn dweud wrth oedolyn eu bod yn cael eu cam-drin. | Llywodraeth Cymru |
| A20. Hyrwyddo adnoddau i blant ar yr hyn fydd yn digwydd os byddant yn dweud wrth oedolyn eu bod yn cael eu cam-drin. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A21. Datblygu adnoddau ar gyfer rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin ar y broses sy'n ymwneud ag ymchwilio i achos o gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol a'r ffyrdd gorau o gynorthwyo plant ac ar ffynonellau o help a chefnogaeth i rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin. | Llywodraeth Cymru |
| A22. Hyrwyddo adnoddau ar gyfer rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin ar y broses sy'n ymwneud ag ymchwilio i achos o gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol, ar y ffyrdd gorau o gynorthwyo plant, ac ar ffynonellau o help a chefnogaeth i rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A23. Datblygu adnoddau hyfforddi i ymarferwyr ar ymdrin â datgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol, y broses ymchwilio, a chefnogi teuluoedd a effeithiwyd gan gam-drin plant yn rhywiol. | Llywodraeth Cymru |
| A24. Cefnogi dysgu ymarferwyr ar ymdrin â datgeliadau o gam-drin, y broses ymchwilio, a chefnogi teuluoedd a effeithiwyd gan gam-drin plant yn rhywiol. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A25. Rhannol ariannu ymchwil Canolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol: *Datgelu graddfa cam-drin plant yn rhywiol mewn cofnodion gofal cymdeithasol: Astudiaeth Cymru*. | Llywodraeth Cymru |
| A26. Ystyried goblygiadau canfyddiadau gwaith ymchwil Datgelu graddfa cam-drin plant yn rhywiol mewn cofnodion gofal cymdeithasol: Astudiaeth Cymru wrth adolygu amlder tebygol achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn y rhanbarth. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A27. Cefnogi datblygiad Manyleb Gwasanaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru gyda Chydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru, gan ystyried amrywiaeth o fodelau ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn. | Llywodraeth Cymru |
| A28. Ymgynghori ar lwybr clinigol i blant sydd wedi datgelu cam-drin plant yn rhywiol / plant y mae Cydweithrediaeth Iechyd | Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| GIG Cymru wedi'u nodi fel rhai sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a chefnogi datblygiad y llwybr hwn. | |
| A29. Cefnogi datblygiad ar sail tystiolaeth y cynnig ar gyfer cymorth therapiwtig i blant sydd wedi'u heffeithio gan drawma sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol. | Llywodraeth Cymru |
| A30. Hyrwyddo tystiolaeth a dysgu o'r prosiect Gwella a ariennir gan Lywodraeth Cymru. | Llywodraeth Cymru |
| A31. Cynnal adolygiad o'r cymorth therapiwtig sydd ar gael i blant sydd wedi dioddef cam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol neu gam-drin rhywiol ar-lein yn y rhanbarth, fel y gellir nodi a mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |
| A32. Datblygu adnoddau addas i oedran i blant sy'n cyrraedd 18 mlwydd oed ar gael cymorth fel oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth. | Llywodraeth Cymru |
| A33. Hyrwyddo adnoddau i blant sy'n cyrraedd 18 mlwydd oed ar gael cymorth fel oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth. | Partneriaid ar Fyrddau Diogelu |